pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 1

Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2026 Rhif 522



tud 4 **Rownd a Rownd y Felin**

tud 7 **Geraint Morse**

tud 8 **Bore Coffi**

tud 12 **Ironman**

Dewi Tyngraig yn disgleirio unwaith eto!



Dewi, a'i gi ffyddlon, Clwyd Bob

Na, nid rhifyn Hydref 2025 yw hwn, ond yr un person a'r un ci sydd ar y dudalen flaen, gan fod Dewi Jenkins, Tyngraig, wedi llwyddo am y trydydd tro, a'r eil-waith o'r bron i gipio'r brif wobr yn y Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol - neu y siwprîm fel y mae'n cael ei alw gan ddilynwyr y gamp - a dod yn bencampwr unwaith yn rhagor yn 2026! Cynhaliwyd y treialon eleni ar Ffarm Daylesford, yn ardal hyfryd y Cotswolds, Swydd Gaerloyw. Yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf bu chwedeg ci a bugail o Iwerddon, Cymru, Lloegr a'r Alban yn cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn ennill lle yn y rownd derfynol ar y trydydd diwrnod. Dim ond pymtheg o'r chwedeg oedd yn mynd trwodd i'r rownd derfynol. Llwyddodd Dewi i gyrraedd y rownd derfynol gyda sgôr barchus iawn. Roedd y cwrs ar y gyfer y rownd derfynol yn llawer anoddach a llawer mwy na'r diwrnodau blaenorol, ond doedd hyn ddim yn broblem o gwbl i Dewi, a'i gi ffyddlon, Clwyd Bob. Yn wir, roedd y dorf wedi'i syfrdanu gan mor anhygoel oedd y rhediad. Dywedodd amryw, gan gynnwys y cyn-bencampwr byd, Aled Owen nad oedd yn cofio rhediad cystal â hon mewn ffeinal ryngwladol erioed o'r blaen! Tipyn o ddweud! Adlewyrchwyd hyn yn y sgôr wych a gafodd Dewi a Bob i ennill y bencampwriaeth, 59 marc yn well na'r person oedd yn ail! Llongyfarchiadau calonnog, Dewi, ac wrth gwrs, Clwyd Bob. Tybed ai hon yw'r bartneriaeth fwyaf llwyddiannus yn hanes y gamp?

ES

pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 2

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:
Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:
Cysyllter â golygydd y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:
Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:
Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
07507 652092

Rhwydweithiau cymdeithasol:
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:
Helena O Sullivan, Bont-goch
07812 994 008

Dylunio:
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Casglu'r Papur:
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

Dosbarthwyr:
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Mair, Ellyw a Betsan gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Tachwedd fydd Helen (helen.iwan@btinternet.com), Siwan a Lyn.

Y dyddiad cau yw 6 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 13 Tachwedd.



"Gyda tanwydd mor ddrud, does neb yn gallu fforddio gyrru'n rhy gyflym!"

Ymgyrch Cae Bach

Roedd taith Gerwyn, Arthur a Rhian 'Rownd a Rownd y Felin' ar 13 Medi yn llwyddiant ysgubol er gwaetha'r tywydd. Llwyddwyd i godi dros £620 ar y diwrnod, ac rydym wedi clywed bod y gronfa Just Giving wedi cyrraedd dros £3,000 erbyn hyn! Diolch o galon i'r tri ohonynt. Diolch hefyd i bawb fu'n cefnogi'r digwyddiad trwy gymryd rhan a thrwy helpu i osod pethau ar y Patshyn Glas. Diolch arbennig i Lynn a Mark Ebenezer am eu cefnogaeth wrth drefnu'r gazebo ac am fod allan ym mhob tywydd yn annog y cerddwyr ac yn codi eu hysbryd.

O'r diwedd, mae pethau wedi dechrau symud yn y Cae Bach. Cafodd yr hen offer i gyd ei werthu trwy ocsiwn ganol mis Medi. Bu Bedwyr Siencyn, Marc Richards, Alun Elidyr, a Spencer a Matthew Davies, ynghyd â rhai o aelodau'r Pwyllgor, yn gosod ffensys dros dro i ddiogelu'r safle, ac yna'n eu tynnu oddi yno yn barod i drosglwyddo'r safle i'r contractwyr.



Diolch i chi i gyd; mae'n hyfryd gweld cymuned yn cydweithio cystal. Bydd y gweithwyr ar y safle am 6-8 wythnos, a hynny rhwng 8yb a 5yh o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'n siŵr y gwelwch chi newid mawr mewn amser byr.

Ac yn olaf, enillwyr Clwb 200 mis Medi oedd: 1af – Glain Jones; 2il – Jo Chalmers; 3ydd – Lynn Ebenezer.

FFILM
'The People's Emergency Briefing'

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Lun 9 Tachwedd am 7.30
Am ddim
Addas i rai dros 16 oed

Cardis yn Cefnogi
Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn Meirionnydd 2027
Cinio ac adloniant

Gwesty'r Marine, Aberystwyth
Dydd Sul, Tachwedd 22ain
am 1.00 y.p.
Tocynnau £ 45.00.

Artistiaid:
Mari Fychan, Guto Ifan Lewis.

Tocynnau oddi wrth:
Gwesty'r Marine 01970 612444
Mary Raw 01970 630281

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

HYDREF

10 **Bore Coffi** 10.30–12.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

11 **Bethel** 10 Y Gweinidog (Cymun)
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gŵyl Diolchgarwch
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Bethesda Tynant 4 Richard Lewis

13 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Am dro ym mynwent Plascrug' (Menna Evans)

18 **Bethel** 10 Cyrddau Pregethu Bethel Aberystwyth, Irfon Roberts
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

19 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 'Heneiddio'n dda' (Elinor Ashworth-Chandler)

21 **Coffi a Chloncs** 10.30–12 Neuadd Llanfach

22 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 5 Hwyrol Weddi

25 **Bethel** 10 Oedfa Ddiolchgarwch i'r Teulu, David Jones
Rehoboth 2 Wyn Morris
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

TACHWEDD

1 **Bethel** 10.30 Uno yn Horeb Penrhyn-coch, Y Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

7 **Bethel** 2 Cyrddau Sefydlu'r Parchedig Geraint Morse. Te i ddilyn yn y Neuadd Goffa
Ffair Grefftau'r Gaeaf 3.30–7 Cletwr

8 **Bethel** 10 Y Gweinidog (Cymun)
Gwasanaeth Sul y Cofio 10.45 Neuadd Goffa Tal-y-bont
Rehoboth 2 Rhidian Griffiths
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

9 **Ffilm: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd** 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

10 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Ofergoelion' (Bronwen Morgan)

BOB WYTHNOS
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chloncs
Cletwr Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'
Festri Bethel Nos Fercher 7–8 Gair a Phaned gyda'r Parchedig Geraint Morse

Clwb Cant Neuadd Llanfach

Enillwyr mis Medi:
1. Rhif 004 Rhiannon Evans
2. Rhif 057 Lisa Byrne
3. Rhif 086 Michael Jones

pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 3

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Sara Jenkins, Tyngraig gynt, a Ioan Jones ar eu priodas ar 26 Medi. Braf oedd gweld y ddau'n teithio mewn steil o Gapel Bethel i Penbryn yn hen fan goch ei thad-cu, y diweddar Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail. Pob dymuniad gorau i chi'ch dau ar fferm Llyndy Isaf, Beddgelert.



Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw gynt, ac Edward Lewis ar achlysur eu priodas hwythau ar 5 Medi. Cafwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Rhydwilym a dathliad hyfryd yng Nghwmgwaun. Dymunwn pob hapusrwydd i chi yng Nghaerdydd.



Llongyfarchiadau i Ceris!

Llongyfarchiadau gwresog i Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont, ar ei llwyddiant eithriadol yn Rás Ffitrwydd Pencampwriaeth 'Deadly Dozen' y Byd a gynhaliwyd yn Crystal Palace, Llundain, ar 6 Medi 2026!

Cyd-gystadlodd Ceris fel par gyda Mel Gaul o Bow Street yn y gystadleuaeth sy'n cynnwys 12 o dasgau neu 'lafuriau' ffitrwydd arddwys - megis cludfannau pwysau, 'deadlift', a 'burpees' - ynghyd â rhedeg 400m rhwng pob un. Trwy ymdrech a dyfalbarhad aruthrol, llwyddodd y ddwy i ddisgleirio a sicrhau'r ail safle ar y podiwm yn eu categori oedran. Camp anhygoel a llongyfarchiadau i'r ddwy ar y llwyddiant arbennig hwn!

Pen-Blwyddi Arbennig

Pob dymuniad da i Dr Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, a ddathlodd ben-blwydd arbennig iawn ddiwedd Medi.

Hefyd pen-blwydd arbennig hapus i Dilwyn Evans, Tynant, Tal-y-bont yn 70 ac i Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont yn 50.

Pen-blwyddi Priodas

Llongyfarchiadau i Helena a Sion, Penygro, Bontgoch sy'n dathlu priodas arian.

Pen-blwydd priodas rhuddem hapus i Dei a Mair Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Heulwen, Clapycripiau ar ddod yn famgu unwaith eto. Ganwyd mab bach, Gethin Rhys i Rhodri a Rebecca yn Lledrod. Mae Megan ac Erin wrth eu boddau gyda'u brawd bach newydd.

Llongyfarchiadau i gyn-weinidog Bethel, Y parch Gwilym Tudur a'i wraig Alex, ar enedigaeth mab bach, Arthur.

Llongyfarchiadau i Bedwyr ac Ynyr Siencyn, Tanrallt, sydd wedi ennill nifer o wobrau yn cneifio mewn gwahanol sioeau dros yr haf.

Llongyfarchiadau i Ceri Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont, ar ennill Medal Efydd dros tîm Cymru yn pysgota plu yn Killarney, Iwerddon yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gerwyn, Menna a Tomos, Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar golli mam Gerwyn, ddiwedd mis Medi.

Cydymdeimlwn â Glenys a Geraint Jenkins, Penpompren Uchaf wedi iddynt golli gŵr a thad, sef Dafydd. Rydym yn anfon ein cofion atynt a'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn gyda Mark Evans, Exchange Garage, Capel Bangor ar golli ei wraig Iona, mam i Ffion ac Anna, ac yn famgu i Betsi, Winni a Luca. Merch y diweddar Tom a Vera Lewis, 6 Pencae, Taliesin. Cydymdeimlwn hefyd gydag Emyr Lewis, ei brawd sy'n byw dramor.

Ymddiheuriad

Ymddiheurwn fod enw cartref Wendy Watkin a'r teulu yn anghywir yn y rhifyn diwethaf o Papur Pawb – Heulfor, nid Hirael yw enw'r cartref.

Enillodd Mair Nutting feic Pashley i ferched mewn raffl i godi arian ar gyfer Ysgol Tal-y-bont.

Codwyd £402.00, a thynnwyd y raffl yn Sioe Tal-y-bont.



pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 4



CFfI Tal-y-bont

Dechreuodd blwyddyn newydd o weithgareddau gyda noson o gemau i groesawu aelodau newydd, dan ofal Geraint Cerrigcaranau a Dafydd Tan-rallt.



Daniel Morgan

Yr wythnos ganlynol cafwyd un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, sef helfa drysor ceir. Trefnwyd yr helfa gan Bedwyr a chafwyd swper i ddilyn yn y Welsh Black yn Bow Street. Y tîm buddugol oedd Mair, Ynyr, Lloyd, Wil a Math, felly nhw fydd yn cael y fraint o drefnu'r helfa y flwyddyn nesaf.

Cynhaliwyd rhan gyntaf y Diwrnod Maes ar Fferm Trawsgoed ar ddydd Sadwrn, 26 Medi, pan fu nifer o'n haelodau'n cystadlu. Llwyddodd Daniel Morgan, Allt-goch, i gipio'r wobr gyntaf am farnu Ŵyn tew dan 18 oed, ac yntau'n cystadlu am y tro cyntaf!

Daeth y tîm barnu stoc dan 18, sef Tomos Jones, Beca Davies, Gwawr Morgan a Lleucu Evans, yn bedwerydd. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu a phob lwc i bawb yn ail ran y Diwrnod Maes.

Ysgol Penweddig



Mae 107 o ddisgyblion newydd wedi ymuno ag Ysgol Penweddig ddechrau Medi a dyma'r disgyblion Blwyddyn 7 o ardal Papur Pawb. Pob dymuniad da iddynt.



Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00

01970 832 674

Taith gerdded noddedig **Rownd a Rownd y Felin** yn codi £3,800 tuag at Gronfa Cae Bach



Gerwyn a Rhian

Er gwaetha'r gwynt a'r glaw, daeth cymuned Tal-y-bont at ei gilydd ar 12 a 13 Medi i gerdded Rownd a Rownd y Felin gan gwblhau'r cylch 370 o weithiau a phellter o 400 milltir mewn 24 awr.

Diolch i haelioni'r gymuned a ffrindiau o bell ac agos, codwyd £3,800 tuag at goffrau ymgyrch lwyddiannus iawn Cronfa Cae Bach sydd yn talu am offer newydd ar gyfer parc chwarae'r pentref.

Yr her oedd cwblhau'r daith rownd y felin 53 o weithiau mewn 24 awr, ac erbyn 11 o'r gloch ar y bore Sul, roedd dau ddewr a gwydn wedi cyflawni'r dasg, Gerwyn a Rhian Jones.

Wrth gwrs, byddai hyn ddim wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y gymuned ddarparodd gysgod, bwyd a diod wrth i'r cerddwyr gerdded i mewn i'r oriau mân, a chofnodi pob cylch a gwblhawyd ar y sgôr fwrdd mawr.

Gosodwyd yr her gan Gerwyn gan fod 53 mlynedd ers i Cae Bach gael ei agor yn swyddogol gan Aelod Seneddol Ceredigion ar y pryd, Elystan Morgan, ar 8 Medi 1973.

Roedd hi hefyd yn benllanw taith bersonol iddo. Ar Ddydd Gŵyl Dewi dechreuodd ar gyfres o deithiau cerdded a fyddai'n ei weld yn cerdded ar hyd Clawdd Offa, croesi Cymru o Fachynlleth i Drefaldwyn, dringo tri chopa Cymru, Yr Wyddfa, Cader Idris, Pen y Fan a llawer mwy.

Gyda hyn oll o dan ei felt, roedd cwblhau 'Rownd a Rownd y Felin' yn golygu ei fod wedi cerdded dros 2200 o filltiroedd ers 1 Mawrth.

Cyn dechrau ar ei daith, dywedodd Gerwyn: "Mae cenedlaethau o blant wedi treulio oriau lawer yn chwarae yn Cae Bach ym mhob tywydd, ac roeddwn i'n un ohonynt flynyddoedd yn ôl. Mae'r ymgyrch codi arian wedi bod yn anhygoel ac mi fydd yn fraint cael cerdded rownd y felin i nodi'r garreg filltir bwysig hon ac i ddathlu llwyddiant ymgyrch Cronfa Cae Bach ac i gyfrannu ati."

Yn ogystal â Gerwyn a Rhian, cwblhaodd Arthur Dafis, Mur Mawr y daith 44 o weithiau, David Nutting, Tŷ Hen Henllys 42 gwaith, Cheryl Stubbs 35 gwaith, a Cai Jacob, Mur Mawr a gwblhaodd y daith 21 o weithiau ag yntau'n 11 oed!

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth a chofiwch, dyw hi ddim yn rhy hwyr i gyfrannu drwy gyfri 'Just Giving' Cae Bach Talybont https://www.justgiving.com/crowdfunding/caebachtalybont

pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 5

Ysgol Tal-y-bont


Taith i'r Lolfa


Llysgenhadon Efydd yr Ysgol


Creffiau'r Hydref


Croeso i'r Hydref


Croeso i'r Hydref

Taith i'r Lolfa

Ar 15 Medi, cafodd disgyblion CA2 gyfle arbennig iawn i ymweld â'r Lolfa a chael cipolwg ar "Llyfr Sgrap Macs Sion 2" wrth iddo gael ei argraffu. Y llynedd, bu'r plant yn ffodus iawn i gwrdd â'r awdures, Mari Lovgreen, yn Llyfrgell y Dref. Roeddent wrth eu boddau yn gwrando arni'n darllen darnau o'r llyfr cyntaf, ac ers hynny maent wedi bod yn yn awyddus iawn i weld beth oedd yn digwydd yn y gyfrol newydd. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y disgyblion weld y broses gyfan o greu llyfr, o'r argraffu a'r plygu i'r rhwymo a'r torri. Roedd yn brofiad hynod ddiddorol gweld y peiriannau'n gweithio a sylweddoli faint o waith sy'n mynd i mewn i gynhyrchu llyfr cyn iddo gyrraedd y siopau a'r darllenwyr. Diolch o galon i bawb yn y Lolfa am eu croeso cynnes ac am rannu cyfrinachau'r broses gyhoeddi gyda ni. Roedd yn brofiad gwerthfawr na fydd y plant yn ei anghofio ar frys. Mynnwch gopi – er mwyn gweld ambell i ddŵdl gan artistiaid o Ysgol Tal-y-bont.

Croeso i'r Hydref

Mae'r hydref wedi cyrraedd, a'r plant wedi bod yn brysur yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau tymhorol. Yn Nosbarth Mynydd Gorddu, bu'r plant yn plicio ac yn torri afalau cyn eu defnyddio i wneud saws afal blasus. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau ymarferol a rhifedd wrth ddysgu am gynnyrch a thraddodiadau'r tymor.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bu'r disgyblion a Mrs Morgan yn brysur yn paratoi crymbl afal blasus, gan fwynhau pob cam o'r broses, o'r paratoi i'r blasu. Mae holl blant yr ysgol wedi bod yn creu gwaith celf hydrefol lliwgar sy'n adlewyrchu holl harddwch y tymor. Mae wedi bod yn ddechrau creadigol a phrysur iawn i'r hydref.

Arwyr Cynnal a Chadw

Hoffem estyn diolch arbennig i'r teuluoedd a roddodd o'u hamser i helpu gyda gwaith cynnal a chadw yn ein hardal allanol yn ddiweddar. Mae eu cefnogaeth a'u parodrwydd i helpu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymuned yr ysgol gyfan. Diolch yn fawr am eich gwaith caled a'ch caredigrwydd. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cymorth.

Llysgenhadon Efydd yr Ysgol

Llongyfarchiadau i'n Llysgenhadon Efydd eleni, Elis ac Elsi o Flwyddyn 6. Ar 28 Medi, cafodd y ddau gyfle i fynychu sesiwn hyfforddi yn Ysgol Penweddig gyda Steve o Ceredigion Actif. Yn dilyn yr hyfforddiant, byddant yn cynnal sesiynau ymarfer corff amser cinio bob dydd Mercher er mwyn annog mwy o weithgarwch corfforol a chadw'n iach ymhlith disgyblion yr ysgol. Dosbarth Allt y Crib oedd y criw lwcus i gymryd rhan yn y sesiwn gyntaf, a cafodd pawb hwyl wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau egnïol.

Twrnamaint Pêl-rwyd Cymysg yr Urdd

Ar 1 Hydref, bu tîm o Flwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn Nhwrnamaint Pêl-rwyd Cymysg yr Urdd ar y cae 2G yng Nghanolfan Hamdden Plascrug. Roedd yn bleser gweld pob un o'r disgyblion yn dangos ymdrech, brwdfrydedd ac ymddygiad arbennig drwy gydol y twrnamaint. Diolch yn fawr i'r Urdd am drefnu'r digwyddiad.

Diwrnod Pontio i Ysgol Penweddig

Ar 2 Hydref, cafodd disgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i dreulio'r diwrnod yn Ysgol Penweddig fel rhan o'u rhaglen bontio i'r ysgol uwchradd. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i ddod i adnabod yr ysgol, y staff a rhai o'r profiadau sydd o'u blaenau yn y dyfodol. Mwynhaodd y disgyblion ddiwrnod llawn gweithgareddau ac fe gawsant flas ar fywyd ysgol uwchradd. Uchafbwynt arbennig y diwrnod oedd cael gweld Mei Gwynedd!

Er bod Medi 2027 yn ymddangos yn bell i ffwrdd ar hyn o bryd, bydd yn cyrraedd yn gynt nag y tybiwn! Edrychwn ymlaen at gefnogi ein disgyblion wrth iddynt baratoi ar gyfer y cam nesaf cyffrous yn eu haddysg.


Teuluoedd yn helpu gwella'r ardal allanol


Pontio Ysgol Penweddig



Tîm Pêl-rwyd yr Urdd

pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 6

Gŵyl R S Thomas



Bu Gŵyl RS Thomas yn llwyddiant mawr gyda mwy na 400 o bobl yn bresennol dros ddigwyddiadau'r penwythnos. Cafwyd Gwasanaeth Eglwys ardderchog gydag Archesgob Cymru ac Esgob Tŷ Ddewi yn bresennol, ynghyd â chlerigwyr lleol.

Roedd y cyngherddau gyda cherddorion lleol o ansawdd proffesiynol iawn, a denodd y sgyrsiau a'r gystadleuaeth farddoniaeth gynulleidfa lawn ym mhob digwyddiad.

Casglwyd arian yn y Gwasanaeth at Gronfa Cenhadaeth Ddewi sy'n rhannu arian rhwng elusennau lleol a ledled y byd.

Noson Gwis Gymunedol

Mwynhaodd trigolion Dôl Pistyll noson hamddenol ar y Patsyn Glas Bach yn ystod digwyddiad diweddar "Noson Gwis dan y Goleuadau". Gan ddod â chadeiriau, blancedi, tortshys a digon o frwdfrydedd, ymgasglodd teuluoedd a ffrindiau lleol yn yr awyr agored i brofi eu gwybodaeth a mwynhau ychydig o gystadleuaeth gyfeillgar.

Y noson gwis yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddigwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn i ddathlu 20 mlynedd ers sefydlu'r ystâd. Mae'r rhaglen o weithgareddau wedi dod â thrigolion ynghyd ar sawl achlysur, gan helpu i nodi'r garreg filltir bwysig hon.

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran ac a helpodd i wneud y noson yn gymaint o lwyddiant. Mae digwyddiadau fel hyn yn helpu i gryfhau ysbryd cymunedol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gymdogion ddod ynghyd, mwynhau eu hunain a dathlu 20 mlynedd o gymuned Dôl Pistyll.



Diwrnod Agored i'w gofio yn Fferm Moelgolomen



Cynhaliwyd diwrnod agored Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig 2026 o dan nawdd Cangen Sir Ceredigion yn Fferm Moelgolomen, Tal-y-bont ar ddydd Sadwrn, 19 Medi trwy garedigrwydd teulu Simon a Rhodri Lloyd-Williams.

Mewn cyd-ddigwyddiad hyfryd roedd Simon a Monica yn nodi hanner can mlynedd yn ystod mis Medi ers dechrau ffermio ym Moelgolomen ac roedd y diwrnod agored yn gyfle i ddangos a dathlu yr hyn sydd wedi'i gyflawni ers y dyddiau cynnar hynny ac o dan arweiniad Rhodri erbyn hyn.

Roedd yn gyfle i weld fferm fynydd organig draddodiadol ar waith. Mae'r teulu wedi ymrwymo i ffermio mewn perthynas agos â natur trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol a phori cadwraethol.

Yn dilyn bore gwlyb, cliriodd y niwl gan sicrhau prynhawn sych er mwyn medru mwynhau'r daith dywys o gwmpas y fferm ar gefn sawl tractor a threlar. Cafwyd cyfle arbennig i fwynhau'r golygfeydd godidog, gweld y ddiadell o ddefaid Mynydd Cymreig a'r fuches o Wartheg Duon Cymreig.


Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd arddangosfa wych o gŵn defaid Cymreig yn gweithio ac yn hel defaid yn gelfydd yn eu cynefin naturiol gan arddangos eu sgiliau arbennig ar eu gorau. O gofio bod defaid Moelgolomen wedi eu bridio a'u cofnodi ar berfformiad ers dros ddeg mlynedd ar hugain roedd yn briodol bod tîm Geneteg Defaid Cymru yn bresennol hefyd i drafod manteision cofnodi perfformiad. Cafwyd cyflwyniad byr gan gyfeirio at FlocTest, eu prosiect cyfredol i gefnogi gwelliant genetig mewn diadelloedd mynydd yng Nghymru.

I gloi'r prynhawn cafwyd cyfle am sgwrs wrth fwynhau gwledd gan dîm Halen a Pupur. Hoffai'r gangen ddiolch i deulu Moelgolomen am eu croeso cynnes ac am gynnal prynhawn difyr ac addysgiadol. Mewn cyfnod o newidiadau mawr ac ansicrwydd ym myd amaeth a dyfodiad y Cynllun Ffermio Cynhaliadwy, braf oedd cael y cyfle i ddathlu llwyddiant fferm fynyddig, profi brwdfrydedd teulu amaethyddol lleol a thynnu sylw at un o fridiau brodorol pwysicaf Cymru.

RhHE

Cyhoeddi llyfr am enwau lleoedd Gogledd Ceredigion

Ydych chi'n mwynhau darllen am ystyr enwau lleoedd lleol? Fis Tachwedd bydd *Rhwng Llyfnant ac Ystwyth: Golwg ar Rai o Enwau Lleoedd Gogledd Ceredigion* gan Angharad Fychan yn cael ei gyhoeddi. Mi fydd y gyfrol yn rhoi golwg unigryw ar orffennol gogledd Ceredigion drwy gyfrwng ei henwau lleoedd.



Bydd yn gyfrol o erthyglau mewn arddull boblogaidd a darllenadwy sy'n trafod ystyr dros hanner cant o enwau lleol (yn fras rhwng afonydd Llyfnant ac Ystwyth). Yn ogystal ag ystyried tarddiad ac arwyddocâd yr enwau, rhoddir sylw i draddodiadau a chwedlau lleol sy'n gysylltiedig â hwy, gan gymharu ag enwau eraill ar draws Cymru a thu hwnt.

Mae modd rhagarchebu copi o'r gyfrol drwy'r Lolfa: www.ylolfa.com neu croeso i chi alw i mewn.

Bydd *Rhwng Llyfnant ac Ystwyth: Golwg ar Rai o Enwau Lleoedd Gogledd Ceredigion* gan Angharad Fychan ar gael 23 Tachwedd am £12.99.

pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 7


Geraint Morse

Mae'r Parch Geraint Morse ar drothwy'r cam nesaf yn ei yrfa fel gweinidog. Mewn rhyw fis fe fydd yn cymryd cyfrifoldeb am Ofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion sy'n cynnwys capeli Bethel a Seion Baker Street Aberystwyth, Horeb Penrhyn-coch a Bethel Tal-y-bont. Mae'r cam yn golygu uno achosion Bedyddwyr ac Annibynwyr i sefydlu gweinidogaeth bro, rhywbeth y bu mawr alw amdano yng nghyd-destun edwino a gostyngiad yn nifer yr aelodau.

Magwyd Geraint yn Woodstock (Wstog), pentref ar odre'r Preselau rhwng Hwlffordd ag Aberteifi. Mae'r lle ar y Landsker – y llinell sy'n rhannu ardaloedd Cymraeg a Saesneg sir Benfro. Aeth i Ysgol Spittal ac yna i Ysgol Uwchradd Hwlffordd. Oddi yno i Goleg Diwinyddol Aberystwyth yr aeth a chychwyn pregethu ambell Sul. Ei fwriad pryd hynny oedd bod yn athro addysg grefyddol a chafodd ei swydd gyntaf yn New Malden i'r de o Lundain a dysgu yno am bedair mlynedd, cyn symud i fod y bennaeth adran yn Hinchley Wood. Er hyn roedd y dynfa at y weinidogaeth yn gref ac aeth i Goleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd i ennill gradd Meistr mewn Diwinyddiaeth i gymhwyso ei hun at y gwaith. Ei alwad gyntaf oedd i Groesgoch, cyn symyd i Benygroes Sir Gaerfyrddin ac oddi yno i dref Caerfyrddin ei hun. Yna newid byd yn llwyr a gweinidogaethu yn Clearwater Bay International Baptist Church yn Hong Kong gyda rhan helaeth o'r aelodau yn fyfyrwyr a darlithwyr ym Mhrifysgol Hong Kong gerllaw. Mae Geraint yn siarad yn gynnes am ei brofiad yno – cynulleidfaoedd niferus a pharch mawr at neges yr efengyl. O'r dwyrain pell 'nôl i'r gorllewin a dychwelyd i fro ei febyd i wasanaethu yng nghapeli yn ardal Groesgoch Sir Benfro am dair mlynedd ar ddeg.

A nawr mae'n symud i Ogledd Ceredigion a'r mudo wrth gwrs yn ddaearyddol, ond yn bwysicaf, yn gam ysbrydol sy'n gofyn am ollwng a derbyn. Mae'r bedydd trochiad yn ganolog iddo ond mae'n gweld y gofyn a'r galw am ddulliau gwahanol. Iddo ef, derbyn y plentyn i'r ffydd sy'n bwysig a thrwy hynny estyn breichiau at y teulu i ddangos fod y capel yn lle croesawgar a chynnes.

Pan ofynnwyd i Geraint am heriau'r swydd newydd dywedodd bod angen meddwl yn ddwys am dri peth. Yn gyntaf bod yn effro i'r gwahaniaeth rhwng capel ac eglwys. Adeilad yw'r capel a tra'n cydnabod bod gofyn gofal am yr adeilad rhaid i'r lle fod yn fwy na hynny. Rhaid iddo fod yn fan lle y daw pobl i addoli ac i ddysgu am yr ysgrythur. Mae eisoes wedi cychwyn prynhawnau a nosweithiau astudio'r Beibl ac yn gweld hyn yn allweddol. Yn ail rhaid symud o'r canol (y capel) i'r ymylon i ddangos perthnasedd pob man addoli i'w broydd a phentrefi. Yn drydydd a thrwy ystod eang o weithgareddau mae'r gyfrifoldeb i fod yn esiampl – blaenffrwyth y deyrnas mewn geiriau eraill.



Wrth ochr Geraint trwy gydol y daith mae ei wraig Tina. Cafodd ei geni yn Aberbargoed ym Mwrdeistref Caerffili. Saesneg oedd iaith y cartref ac mae'n barod i dderbyn nad oedd llawer o bwyslais ar addysg ar yr aelwyd. Fodd bynnag, roedd yn rhagori mewn un peth, sef athletau. Rhedodd ar y traciau a thraws gwald ar lefel uchel a derbyn hyfforddiant i fod yn athrawes ymarfer corff. Roedd ei chwaer yn ddylanwad mawr arni ac yn arbennig ei gwaith gyda Byddin yr Iachawdwriaeth. Dyma'r ddylanwad ddenodd Tina at Gristnogaeth ac yn y pendraw i'r Coleg Diwinyddol (un ddynes ymhlith y dynion!) lle cyfarfu â Geraint. Dysgodd y Gymraeg a throsglwyddo'r iaith i'r meibion – Dafydd, sy'n byw yn Nghaerdydd, ac Owen sy'n Hastings. Fel pob mam-gu mae Tina yn falch o'i phedair wyres.

Am ddiddordebau Geraint, bu'n cadw gwenyn am ddeugain mlynedd ac mae'n hoffi canu a chwarae'r piano (toncan yn nhyb Tina!). Fe fydd y rhai sydd wedi mynychu'r oedfaon wedi sylwi ei fod yn darllen pob pennill yr emyn ac mae'n datgan yn gref fod neges oesol ynddynt.

Mae Geraint wedi addo rhoi pum mlynedd i'r Ofalaeth Newydd ac mae eisoes wedi bwrw at y gwaith – nid yn unig yn y capeli ond hefyd yn y gymuned ehangach. Mynychodd Dreialon Cŵn Defaid Tal-y-bont ac uwchlaw pob peth mae'n awyddus i weld ei hun fel bugail yn corlannu'r defaid – y defaid parod a'r defaid anystywallt!

Cynhelir Oedfa Sefydlu Y Parch Geraint Morse yn Bethel am ddau o'r gloch prynhawn Sadwrn 7fed o Dachwedd ac mae croeso cynnes i bawb.
GIE





pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 8

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Croesawyd Ioan Guile, Aberystwyth, i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar brynhawn Mawrth, 8 Medi, a chafwyd prynhawn dymunol iawn wrth wrando arno yn adrodd hanes Cwmni Theatr y Wardens yn Aberystwyth. Bu yntau yn weithgar iawn gyda'r cwmni ers bron i hanner can mlynedd gan berfformio'n rheolaidd yn eu cynyrchiadau. Cafodd y Cwmni ei ffurfio yn Hydref 1944 gan berfformio dramâu yn lleol, ond yn 1983 y perfformiwyd y pantomeim cyntaf yn Theatr y Werin. Ers hynny mae wedi bod yn achlysur blynyddol ar wahân i ddwy flynedd yr haint, ac wedi bod yn llwyddiant mawr. Cawsom hanes nifer o'r pantomeimiau a berfformiwyd dros y blynyddoedd, a daeth â wig liwgar a rhai o'r gwisgoedd trawiadol a wisgwyd gan rai o'r cymeriadau i'w dangos. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad hwyliog ac roedd pawb wedi mwynhau clywed yr hanesion.

Dangos Ffilm

A ydych chi wedi sylwi ar yr amgylchedd yn newid? Y tywydd twym, lefelau'r môr yn codi, tanau gwyllt? A ydych chi eisiau deall mwy am hyn a beth mae'n ei olygu i'n cymuned, a beth gallwn ni ei wneud?

Dewch i weld 'The People's Emergency Briefing' - ffilm 50 munud sy'n cael ei dangos o gwmpas y DU ac sy'n rhoi gwybodaeth gyfredol i bobl am yr argyfwng hinsawdd a natur presennol. Mae naw arbenigwr yn trafod agweddau gwahanol ar yr effaith ar ein bywydau bob dydd. Mae'r pynciau yn cynnwys tywydd eithafol, iechyd a diogelwch bwyd.

Ar ôl pob cyflwyniad mae Chris Packham, Deborah Meaden (Dragon's Den) a gwesteion annisgwyl yn trafod yr hyn mae nhw wedi'i glywed.

Mae'r ffilm yn seiliedig ar gyflwyniad a roddwyd yn San Steffan ym mis Tachwedd 2025. Roedd dros 1,250 o wleidyddion ac arweinwyr eraill yno. Roedd ein AS ni, Ben Lake, yn eu plith ac yn siarad amdano mewn cyfweliad ar y teledu

Felly, os oes gennych ddiddordeb mewn llifogydd, newid hinsawdd a phrisiau bwyd, efallai yr hoffech ddod i weld y ffilm ar nos Lun Tachwedd 9fed am 7.30 yn Neuadd Goffa,Tal-y-bont. Ar ôl y ffilm bydd te a chacen ar gael a chyfle i drafod y ffilm. Mae'r cyfan am ddim.

Mae'r ffilm yn addas i bobl dros 16 mlwydd oed.

Sue Marcus



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Fore Sadwrn, 3 Hydref cynhaliwyd bore coffi dan nawdd Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch yn y Neuadd Goffa i godi arian i'r elusen Ymchwil Canser Cymru. Agorwyd y bore coffi gan Lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, Bethan Picton Davies a oedd wedi teithio yr holl ffordd o Eglwyswrw, Sir Benfro. Hi Bethan oedd wedi dewis yr elusen yma i'w chefnogi dros gyfnod ei llywyddiaeth o 2025 - 2027 a hyd yma mae'r ymgyrch wedi codi £80,000.



Wedi iddi sôn am lwyddiant y gwaith ymchwil pwysig gan yr elusen rhannodd ei phrofiadau personol a theuluol wrth brofi'r afiechyd creulon yma.

Wedi cyflwyno blodau iddi, cafwyd eitemau cerddorol hyfryd gan ddisgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-bont.

Mawr yw ein diolch i bob un a gefnogodd y bore coffi ac a gyfrannodd mewn sawl ffordd gan sicrhau cyfanswm o dros £700 i Ymchwil Canser Cymru.

Unwaith eto dyma gyfraniad arbennig gan ein cymuned leol.

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL
01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN
Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:05 Page 9

Sesiwn Gwasgu Afalau Cletwr




Er gwaetha' rhagolygon y tywydd daeth digon o bobol i Cletwr gyda thipyn o afalau i'n sesiwn a gynhaliwyd ddydd Sul 27 Medi gan wirfoddolwyr brwdfrydig Gelli Deg Dyfi gyda chymorth gwirfoddolwyr o Grŵp Garddio Cletwr. Yn y pen draw, dim ond cwpwl o gawodydd trwm gawson ni – hwrê! Doedd dim cymaint o bobol nac afalau ag arfer ond wedyn, efallai nad oedd cymaint o gnwd eleni ar ôl y gwres mawr. Roedd golwg eitha' tywyll ar y sudd y tro 'ma – bydd yn wahanol bob tro gan ddibynnu ar rywogaethau'r afalau sy'n cyrraedd. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad, eich rhoddion i Gelli Deg Dyfi a'ch cwmni clên. Mwynhewch eich sudd blasus ac mi welwn ni chi y flwyddyn nesa gobeithio!

Yn **Natur**iol

Un diwrnod arbennig yn y fro



Colander Girls! (Delwedd gan Clare Wassermann)




Nia Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont a'i dull dyfeisgar i wylio'r eclips!

Aeth trigolion yr ardal allan yn llu ar 12 Awst gyda'u blychau cardbord, eu sbectolau arbennig a'u hidlyddion. Fe aeth Clare Wassermann a minnau allan gyda phicnic a darnau amrywiol o gardbord, offer cegin a thâp gaffer i lecyn yn edrych dros Gors Fochno. Ar ôl ychydig, fe dywyllodd hi rywfaint a sylwon ni bod yr adar wedi rhoi'r gorau i ganu. Y peth sylwais i arno fwyaf oedd ei bod hi wedi mynd yn llawer oerach.

Parhaodd yr eclips cyfan am 40 munud ac yna dechreuon ni gynhesu'n raddol, daeth y golau yn ôl a dechreuodd yr adar hedfan o gwmpas eto. Yr uchafbwynt oedd gweld ysgyfarnog hardd yn agos. Tua deg o'r gloch y nos aethon ni i nofio yn y môr ac yna gweld cawod sêr gwib Perseid. Am ddiwrnod!

Linda Denton

Eclipsau dyfodol



Yn ystod y 10 mlynedd nesaf bydd 23 o eclipsau lleuad neu haul i'w gweld o Gymru.

Yr eclipsau dych chi'n gallu weld o Gymru y flwyddyn nesaf yw:

20-21 Chwefror 2027 Eclips Lleuad Penumbral (Dydw i ddim yn gwybod beth mae hynny'n ei olygu ond byddwn ni'n cadw llygad amdano!)

2 Awst 2027 Eclips rhannol ar yr haul.

Ac ar **31 Rhagfyr 2028** bydd eclips lleuad cyflawn.

Yr eclips solar cyflawn nesaf fydd ar **14 Mehefin 2151**.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
07939 604804

MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
STORFA CARTREF A BUSNES
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro diogelwch 24 awr
Wedi ei wresogi
Bocsys a 'bubblewrap' ar lein
Ffôn : 01654 703592
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
sales@midwalesstorage.co.uk
www.midwalesstorage.co.uk
Mid Wales REMOVALS

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
Cymraeg

pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:06 Page 10



Buwch y Flwyddyn 2026

Llongyfarchiadau i Deulu Tanrallt ar gipio'r wobr Buwch y Flwyddyn Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig, gyda'i buwch arbennig, Arglwyddes Riwbi'r 9fed. Llwyddodd i ennill tri pencampwriaeth a chael y wobr gyntaf mewn pump sioe yn ystod yr haf, sef Aberystwyth, Y Sioe Frenhinol, Llambed, Sioe Sir Feirionnydd ac Abergwaun.

Cancer y Prostad



Brian Slate, Gareth Cowley a Ron Davies ar ran elusen Cymorth Cancer y Prostad Gorllewin Cymru gyda staff Uned Cemotherapi Glangwili

Cynrychiolwyr o elusen Cymorth Cancer y Prostad Gorllewin Cymru yn cyflwyno siec i adran Uned Cemotherapi Glangwili o £26,273.

Mae elusen Cymorth Cancer y Prostad Gorllewin Cymru yn grŵp o wirfoddolwyr dan arweiniad cleifion sy'n gweithio yng Ngorllewin a De Cymru. Maent yn cynnig cymorth i gleifion cancer y prostad, eu teuluoedd, a'u ffrindiau.

Mae'r trawsnewidiad wedi creu amgylchedd mwy cyfforddus, croesawgar a thawel i gleifion sy'n cael triniaeth yn yr uned, yn ogystal ag i deuluoedd a gofalwyr sy'n dod gyda nhw i apwyntiadau.

Roedd y prosiect yn cynnwys cael gwared ar hen ddodrefn, ailaddurno'n llwyr, gosod lloriau a nenfwd newydd, prynu dodrefn cyfforddus ac ychwanegu gwaith celf newydd i wella'r gofod.

Os hoffech mwy o wybodaeth am yr elusen, cysylltwch â:
Gareth Cowley 012670241150; Ron Davies 01267232981 neu Ron Foulkes 015590362736



Sioe ar y Fferm



Llongyfarchiadau i deulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Sioe ar y Fferm Clwb Bridwyr Aberystwyth yn ddiweddar. Llwyddodd eu buwch, Caran Chief Marqi, i gipio teitl y Prif Bencampwr Unigol, ac enillodd y teulu y nifer fwyaf o bwyntiau yn ystod y digwyddiad, gan gipio Cwpan Her Gerwyn Jones, World Wide Sires.



Llysgennad Ifanc Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig



Llongyfarchiadau i Sara Jones (Tyngraig gynt) a gafodd ei hethol yn Llysgennad Ifanc y Gymdeithas yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 3 Hydref. Ers sicrhau tenantiaeth 15 mlynedd yn 2024 ar gyfer Llyndy Isaf – fferm fynydd 600 acer ar odre'r Wyddfa – mae Sara a'i gŵr, Ioan, wedi sefydlu buches newydd, sef Buches Lliwedd, ac mae'n braf eu gweld yn ffynnu yno. Prif ddyletswydd Sara fel y llysgennad ifanc dros y flwyddyn nesaf fydd hyrwyddo'r brid mewn digwyddiadau ac ar y cyfryngau, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr ifanc. Dilynwch @fferm_eryri ar Instagram i ddilyn hynt a helynt Sara a'i holl anifeiliaid fferm!



pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:06 Page 11

Y Gair Olaf



Dyma'r hyn sy'n fy anfon i'n gaclwm gwyllt!
Ffordd Ar Gau Yma
O 1 Medi 2021
Am Un Diwrnod

Fel un a fu wrthi am ryw dri deg o flynyddoedd yn ceisio dysgu plant cynradd, i safon arbennig i wynebu'r byd, mae'n siomedig gweld arwyddion swyddogol gan bobl gyfrifol yn camdrin yr iaith, boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Wrth i athrawon wneud ymdrech lew i gael plant i ysgrifennu'n gywir oni ddylai popeth swyddogol ddilyn y drefn gywir? Yn aml gwelir hysbysebion ac arwyddion amlwg yn anwybyddu'r rheolau mwyaf syml yma.

Y bechod fwyaf yw dechrau, nid y frawddeg yn unig ond Pob Gair gyda llythyren fawr! Pam? I dynnu sylw tybed? Wel mae'n siwr o dynnu sylw athrawon a'u gwylltio ond ai dyna'r bwriad? Ydy'r arwydd yn rhwyddach i'w darllen? Nid i mi beth bynnag; ni welaf ymhellach na'r ffurf answyddogol, camarweiniol, anghywir.

O bosib gwel y plant be welaf i a nhwythau'n credu bod y drefn hon yn gywir.

Oni ddylid parchu ymdrechion athrawon. Dylai pob dim swyddogol a chyhoeddus ddilyn y rheolau a'r drefn gywir er mwyn gosod esiampl.

Safle Parcio I Gartrefi Symudol A Charafanau Yn Unig
Bydd Goleuadau Yma Yn Ystod Y GAEAF.

Gyda'r olaf yma mae'r Gymraeg yn y ffurf answyddogol ond roedd y Saesneg yn berffaith!

Credech chi byth pa mor anodd dwi wedi ei chael hi i deipio'r rhannau sy'n anghywir!

Dyna'r Hyn Sy'n Fy Anfon Yn Gaclwm Gwyllt.
Rhys Huws

Cyfarfod Blynyddol

Cymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a'r Cylch

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a'r Cylch yn y Llew Gwyn ar 16 Medi. Yn ei adroddiad blynyddol nododd y cadeirydd Evan Rowlands bod y gwaith o ddatblygu Cae'r Odyn Galch yn mynd rhagddi'n hwylus. Prynwyd pyst gôl gan ddefnyddio'r grant a dderbyniwyd oddi wrth Cronfa Leri. Paratowyd y cae ar gyfer y gêm gyntaf a chwaraewyd ar ddydd Sadwrn 17 Ionawr. Braf oedd gweld cymaint o gefnogwyr yno i weld Tal-y-bont yn ennill o 3-1 yn erbyn Padarn United. Yn yr haf prynwyd peiriant torri gwair a 'container' newydd. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafwyd gan y Cynghorau Cymuned lleol, Chwaraeon Cymru a Cronfa Leri.

Adroddodd y trysorydd Marc Richards bod y sefyllfa ariannol yn foddhaol a diolchodd i Dei Nutting am archwilio'r cyfrifon.

Etholwyd y pwyllgor canlynol: Evan Rowlands, Bryn Smith, Marc Richards, Siôn Southgate, Ceri Jones, Anthony Southgate, Adam Lewis, Linsey Glover, Mark Ebenezer, Sannan Morgan.

Yn y pwyllgor a ddilynodd y cyfarfod etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd: Bryn Smith; Is-gadeirydd: Siôn Southgate; Ysgrifennydd: Evan Rowlands; Trysorydd: Marc Richards.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Bu'r Cyngor yn trafod y posibilrwydd o gwrdd â swyddogion o'r Gwasanaeth Tân a Cyfoeth Naturiol Cymru yn fuan i weld beth gellir ei wneud yng Nghoedwig Allt-y-crib erbyn yr haf. Os bydd y tywydd mor boeth a sych y flwyddyn nesaf ag y bu yn ystod haf eleni, bydd rhaid sicrhau bod mesurau ar waith i atal unrhyw dân posibl yno rhag cyrraedd unrhyw eiddo cyfagos.

Dyfarnwyd grant gwerth £2,000 gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'w wario ar brosiect ar y cyd rhwng cynghorau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor y Coed i weithio gyda phlant yr ysgol gynradd i feithrin ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd.

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278
Dewch o hyd i ni ar @Garej Davmor



pp Hydref 26.qxp_Layout 1 07/10/2026 10:06 Page 12

Chwaraeon a Hamdden

Ironman Cymru



O ddydd i ddydd, fe ddewch ar draws Owen Evans (ŵyr Jean a Geraint Cwmslaid) yn gweithio yn Cerrigcaranau Uchaf, ond ar 13 Medi, teithiodd i Sir Benfro i gwblhau her a hanner- dyma'i hanes.

"Roedd cymryd rhan yn Ironman Cymru yn Ninbych-y-pysgod yn brofiad na fyddaf byth yn ei anghofio – diwrnod anhygoel, emosiynol a heriol o'r dechrau i'r diwedd.

Roedd awyrgylch y dref a'r cyffiniau yn arbennig iawn. Roedd y torfeydd, y sŵn a'r gefnogaeth ar hyd y cwrs yn anhygoel, ac roedd gwybod bod teulu, ffrindiau a chymaint o bobl leol yn fy nghefnogi yn rhoi hwb enfawr imi drwy gydol y ras.

Wrth gwrs, chwaraeodd tywydd Cymru ei ran hefyd! Roedd yr ail lap o'r nofio yn arbennig o anodd, ac roedd yr amodau ar y beic yn heriol iawn. Er hynny, llwyddais i gwblhau'r rhan feicio gyda'r trydydd amser cyflymaf yn fy ngrŵp oedran – camp yr wyf yn hynod falch ohoni, yn enwedig ar ôl i broblem fecanyddol fach godi ar hyd y ffordd.

Yna daeth y marathon. Aeth hanner cyntaf y ras yn dda, ond yn yr ail hanner dechreuais deimlo'r blinder a'r boen yn fwyfwy. Daeth yn frwydr go iawn i gyrraedd y llinell derfyn, ond roedd cefnogaeth fy nheulu a'm ffrindiau ar hyd y ffordd yn fy nghadw i fynd.

Ar ôl 11 awr a 53 munud, croesi'r llinell derfyn oedd un o'r teimladau gorau i mi ei brofi erioed. Roedd cwblhau Ironman Cymru yn gyflawniad enfawr ynddo'i hun, ac roedd gorffen yn 10fed yn fy ngrŵp oedran yn gwneud y diwrnod hyd yn oed yn fwy arbennig.

Mae Ironman Cymru yn un o'r heriau mwyaf i mi ymgymryd â hi, ac rwy'n hynod ddiolchgar i bawb a'm cefnogodd ar hyd y ffordd – boed hynny drwy hyfforddi gyda mi, codi calon yn ystod yr her neu anfon neges o gefnogaeth."

argraffu
lleol a rhesymol

ylolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com



Llongyfarchiadau i dîm dan 13 oed Taranau Tal-y-bont a enillodd gwpan yn nghystadleuaeth flynyddol Gary Pugh a gynhaliwyd ddechrau Medi.



Crysau Newydd

Drwy haelionni clwb pêl-droed hŷn Tal-y-bont derbyniodd Tîm dan 15 Tal-y-bont set o grysau lled-newydd. Mae'n amlwg bod hynny wedi bod yn hwb i'r tîm gan iddynt ennill 8-0 yn erbyn Llanilar yng ngêm gyntaf y tymor.



Llongyfarchiadau mawr i Mostyn Lloyd-Williams, Tomi Jones a Gruffudd Jones ar gael eu dewis i dîm Rygbi Ysgolion Ceredigion o dan 11 ar gyfer y tymor. Mae'r tri yn falch iawn ar gael eu dewis, ac yn edrych ymlaen at chwarae gemau ar hyd a lled Cymru.